# Ffurflen gais i newid Prif Ymrwymiadau

| | |
|---|---|
| **Enw'r orsaf radio gymunedol:** | Calon FM |
| **Rhif y drwydded:** | CR000091 |
| **Trwyddedai (enw'r cwmni):** | Wrexham Community Broadcasting CIC |
| **Enw cyswllt:** | Arran Hodges |
| **Dyddiad y cais:** | 24 Mai 2023 |

## Manylion y newid(iadau) y gofynnwyd amdanynt i'r Prif Ymrwymiadau

Caiff gweithredwr radio cymunedol wneud cais i Ofcom i newid Prif Ymrwymiadau'r orsaf.

Llenwch y tabl dros y dudalen drwy gynnwys eich Ymrwymiad presennol yn y golofn ar yr ochr chwith a'ch Ymrwymiad diwygiedig arfaethedig yn y golofn ganol. Yn y golofn ar y dde, rhowch esboniad byr ynghylch pam eich bod yn dymuno gwneud pob newid.

Rydym hefyd yn gofyn i chi gwblhau ail dabl sy'n gofyn i chi egluro eich newidiadau arfaethedig gan gyfeirio at y fframwaith statudol.

Os na fyddwch yn rhoi esboniad am eich newidiadau arfaethedig a'r tabl cymharu wedi'i gwblhau, ni all Ofcom ystyried newid Prif Ymrwymiadau.

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at: broadcast.licensing@ofcom.org.uk

| **Ymrwymiad Presennol (fel yn y Prif Ymrwymiadau a gyhoeddwyd gennych)**<br>Dylech gynnwys dim ond un newid ymrwymiad fesul rhes, ac ychwanegwch fwy o resi yn ôl yr angen yn y tabl. | **Ymrwymiad Allweddol diwygiedig/newydd arfaethedig** | **Rheswm dros y newid arfaethedig** |
|---|---|---|
| Mae'r gwasanaeth yn darparu allbwn gwreiddiol<br>am o leiaf 10 awr y dydd.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn darparu allbwn a gynhyrchir yn lleol<br>am o leiaf 13 awr y dydd. | Mae'r gwasanaeth yn darparu allbwn gwreiddiol<br>am o leiaf 56 awr yr wythnos.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn darparu allbwn a gynhyrchir yn lleol<br>am o leiaf 73 awr yr wythnos. | Yn dilyn canllawiau gan Rwydwaith Radio Cymunedol y DU, hoffem newid ein prif ymrwymiadau o bob dydd i bob wythnos, ac rydym hefyd yn bwriadu lleihau'r oriau wythnosol i fod yn fwy tebyg i orsafoedd radio cymunedol eraill.<br><br>Hyd yma, rydym wedi gallu cyflawni'r ymrwymiadau allweddol hyn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall unrhyw broblemau gyda'n gwirfoddolwyr (salwch, neu absenoldebau annisgwyl) olygu y gallem fethu â chyflawni ymrwymiadau sy'n uwch na gorsafoedd eraill. |
| Cerddoriaeth: Y prif fathau o gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod pob wythnos yw: gwrando hawdd, gyda genres cerddoriaeth arbenigol, a cherddoriaeth gan gerddorion lleol a DJs lleol. | Cerddoriaeth: Y prif fathau o gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod pob wythnos yw: gwrando hawdd, gyda genres cerddoriaeth arbenigol, a cherddoriaeth o'r ardal leol | Newid o "gerddorion lleol a DJs lleol" i "o'r ardal leol" ehangach a mwy cynhwysol er mwyn ein galluogi i beidio â chyfyngu i gerddorion a DJs lleol yn unig, ond hefyd i gynnwys pob math o gerddoriaeth leol. |
| | | |
| | | |

## Y gofynion statudol

O dan adran 106(1A)(a)-(f) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd a'i haddaswyd) rhaid i Ofcom fod yn fodlon bod eich newidiadau arfaethedig yn **bodloni o leiaf un o'r meini prawf y cyfeirir atynt isod.**

Nodwch pa rai o'r meini prawf hyn rydych chi'n credu bod eich newidiadau arfaethedig yn eu bodloni drwy ddileu YDW neu NA fel y bo'n berthnasol a rhowch esboniad pam eich bod yn credu bod maen prawf penodol yn cael ei fodloni yn y blwch perthnasol. Dylech nodi, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod eich esboniad o'ch newidiadau arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf hyn, efallai y bydd rhesymau'n dal i fodoli pam nad yw Ofcom yn gallu cydsynio i'r newid. Wrth egluro eich newidiadau arfaethedig, nid yw'n ddigon datgan eich bod yn credu bod un o'r meini prawf wedi'i bodloni. Rhaid i chi hefyd ddangos *pam* eich bod yn credu bod o leiaf un o'r meini prawf hyn yn cael ei fodloni.

Yn benodol, os nad yw Ofcom yn fodlon na fyddai'r newidiadau'n newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol (maen prawf (a) isod), ni all Ofcom gydsynio i'r newid heb ymgynghori ar eich cynigion. Os felly, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau eich bod yn fodlon i ni ymgynghori ynghylch eich newidiadau arfaethedig, ac a ydych yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'ch cais yng ngoleuni'r angen i'w gyhoeddi.

Fel rhan o'n hystyriaeth i'ch cais i wneud newidiadau i'ch Prif Ymrwymiadau, rydym yn gofyn i ymgeiswyr roi esboniad ar gyfer **o leiaf un** o'r meini prawf isod.

| | |
|---|---|
| (a) Yn eich barn chi, a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol? | NA<br>(Esboniwch pam isod) |
| NA, rydym yn dal i ddarparu cyfleoedd i wirfoddolwyr a'r gymuned ehangach ddod yn gyflwynwyr, bod yn rhan o'r orsaf a darparu llwyfan ar gyfer trafod syniadau a materion lleol. | |
| (b) Ydych chi'n credu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar yr ystod o raglenni sydd ar gael drwy wasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n rhan o'r gymuned berthnasol? | NA<br>(Esboniwch pam isod) |
| NA, rydym yn dal i ddarparu cyfleoedd i wirfoddolwyr a'r gymuned ehangach ddod yn gyflwynwyr, bod yn rhan o'r orsaf a darparu llwyfan ar gyfer trafod syniadau a materion lleol. | |
| (c) A ydych yn credu bod tystiolaeth, ymysg pobl sy'n rhan o'r | YDW |

| | |
|---|---|
| gymuned honno, fod galw sylweddol am y newidiadau yr ydych wedi'u cynnig, neu gefnogaeth sylweddol iddynt? | (Esboniwch pam isod) |
| Daw ein gwirfoddolwyr (gan gynnwys ein bwrdd a'n rheolwyr) o'r gymuned leol rydyn ni'n ymgysylltu â nhw, a'n cynulleidfa, yn rheolaidd er mwyn deall anghenion ein cymuned. | |
| (d) Ydych chi'n credu y byddai eich newidiadau arfaethedig yn niweidiol i fynediad aelodau o'r gymuned honno at y cyfleusterau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth ac at hyfforddiant i ddefnyddio'r cyfleusterau hynny? | NA<br>(Esboniwch pam isod) |
| NA, rydym yn dal i ddarparu cyfleoedd i wirfoddolwyr a'r gymuned ehangach ddod yn gyflwynwyr, bod yn rhan o'r orsaf a darparu llwyfan ar gyfer trafod syniadau a materion lleol. | |
| (e) Ydych chi'n credu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn niweidiol i'r manteision cymdeithasol sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaeth a ddarperir o dan eich trwydded? | NA<br>(Esboniwch pam isod) |
| NA, rydym yn dal i ddarparu cyfleoedd i wirfoddolwyr a'r gymuned ehangach ddod yn gyflwynwyr, bod yn rhan o'r orsaf a darparu llwyfan ar gyfer trafod syniadau a materion lleol. | |

| |
|---|
| **Nodwch isod unrhyw wybodaeth ychwanegol a/neu dystiolaeth yr hoffech ei darparu i gefnogi eich newidiadau arfaethedig.**<br>Yn benodol, efallai y byddwch am amlinellu sut rydych chi'n meddwl mae eich newid(iadau) arfaethedig yn cyd-fynd â chanllawiau cyhoeddedig Ofcom ar newidiadau i Brif Ymrwymiadau (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/31913/kc-changes-guidance.pdf). |
| |

## Diogelu Data

Mae angen y wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon arnom er mwyn i ni gyflawni ein dyletswyddau trwyddedu o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996, a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Edrychwch ar Ddatganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom (https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/foi-dp/general-privacy-statement) i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn delio â´ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.

**Diwygiwyd Mai 2018**

## Nodiadau Ofcom ar y Cais

CYTUNWYD ar y cais, oherwydd bod Ofcom yn fodlon mewn perthynas ag Adran 106(1A)(a) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Radio Cymunedol 2004, ac wedi'i addasu ymhellach gan Orchmynion Radio Cymunedol (Diwygiad) 2010 a 2015) h.y. na fyddai'r newidiadau'n newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, ac am y rhesymau polisi a roddir isod.

Mae'r Trwyddedai wedi gofyn am gael newid ei ofynion allbwn gwreiddiol ac allbwn a gynhyrchir yn lleol o bob dydd i bob wythnos, ac ar yr un pryd lleihau'r ddau tua 20%. Ar y cyfan, mae Ofcom yn fodlon cymeradwyo ceisiadau Trwyddedeion i newid eu hallbwn o ofynion dyddiol i ofynion wythnosol, gan gydnabod bod hyn yn gwella eu hyblygrwydd heb effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i wrandawyr yn ystod pob wythnos. Yn yr achos hwn, mae'r Trwyddedai hefyd wedi gofyn am gael lleihau ei ofynion. Mae Ofcom yn fodlon bod y newid hwn yn gymharol fach, fel y gallai ddarparu gwytnwch os bydd gwirfoddolwyr yn sâl, ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a ddarperir i wrandawyr.

Mae'r Trwyddedai hefyd wedi gofyn am ddiwygio ei Ymrwymiad Allweddol ar gerddoriaeth i ganiatáu ar gyfer cerddoriaeth o'r ardal leol yn gyffredinol yn hytrach na dim ond gan gerddorion a DJs lleol. Gan fod yr olaf yn dal yn debygol o ddarparu'r rhan fwyaf o gerddoriaeth leol, mae hyn yn ymddangos yn newid cymharol fach i Brif Ymrwymiadau'r Trwyddedai sy'n annhebygol o newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol.

Felly, mae Ofcom yn fodlon na fydd y newidiadau hyn, yn unigol ac ar y cyd, yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, ac felly rydym yn fodlon bod y newidiadau hyn yn bodloni Adran 106(1A)(a) Deddf Darlledu 1990. Rydym hefyd wedi ystyried y ceisiadau hyn o dan ein meini prawf polisi, ac rydym o'r farn nad oes unrhyw resymau polisi dros wrthod y cais hwn. Rydym o'r farn y bydd y Trwyddedai yn parhau i ddarparu gwasanaeth o fewn nodweddion radio cymunedol, ac na fydd y newidiadau'n llesteirio gallu'r orsaf i ganolbwyntio ar ei chymuned darged. Felly, rydym wedi penderfynu arfer ein disgresiwn a chymeradwyo'r newidiadau hyn.

Mehefin 2023